*Hollalluog a thragwyddol Dduw, y mae dy Ysbryd yn rheoli ac yn sancteiddio holl gorff yr Eglwys: gwrando ar ein gweddi yr ydym yn ei hoffrymu dros bawb o'th bobl ffyddlon, bydded iddynt yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth dy wasanaethu di mewn sancteiddrwydd a gwirionedd, er gogoniant i dy enw; trwy ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn awr a hyd byth. Amen.*





*"Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf."*
*Mathew 9:37,38*



# GWEDDÏO DROS WEINIDOGAETH GRAWYS 2022

**Neilltuir Dyddiau'r Cydgordiau ar gyfer gweddïo dros alwedigaethau a thros y rhai sy'n gwasanaethu'r eglwys mewn gwahanol weinidogaethau. Yn draddodiadol, mae'r rhain yn cael eu cadw ar ddyddiau Mercher, Gwener a Sadwrn yn yr wythnosau cyn Trydydd Sul yr Adfent, Ail Sul y Grawys, ar ôl y Pentecost ac yn nhrydedd wythnos (litwrgaidd) mis Medi.**

Gallwch ddefnyddio'r ddalen hon i fyfyrio ac i weddïo yn ystod DYDDIAU'R CYDGORDIAU eu hunain, yn ystod cyfnodau sefydlu, ordeinio a thrwyddedu, ar eich pen eich hun neu gyda phobl eraill, yn eich eglwys neu yn eich Ardal Genhadaeth.

**TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD**

*Arglwydd Dduw helpa ni i dyfu mewn ffydd, i ddod â gobaith i'r rhai rydym yn eu cyfarfod ar ein taith ac y ein gweinidogaethau ac i ddangos cariad dy fab, Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.*

  

# GALWEDIGAETH

Bydd llawer o'n gweinidogion yn canolbwyntio eu gweinidogaeth ar y gweithle, gan wasanaethu yn ystod yr wythnos mewn meddygaeth, addysg, coedwigaeth, gwaith cymdeithasol yn ogystal ag mewn gwaith gwirfoddol neu gymunedol. Wrth i ni weddïo dros y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, mae hyn yn gyfle da i ni feddwl am ein galwedigaeth ni ein hunain.

*Gweddïwn*
*Dduw sy'n ein galw i gyfrannu at ei Deyrnas, gafael yn ein hansicrwydd a'n gwendid gan wau dy hyder sanctaidd trwyddyn nhw sy'n ein sicrhau fod gennym ni rywbeth i'w gynnig bob amser . Wrth i ni ystyried beth wyt ti'n ei ofyn gennym ni, rydym ni'n gweddïo am galon lan, meddwl clir, dyhead am gariad ac am wasanaethu eraill, ble bynnag y bydd hynny'n mynd â ni: am heddwch dwfn ynghylch y cam nesaf ac am Oleuni Duw yn ein llygaid. Amen*

## GWEDDÏWCH DROS

- y rhai sy'n ystyried eu galwedigaeth ar hyn o bryd a'n tîm o Ymgynghorwyr Galwedigaethau
- dros alwedigaethau i'r weinidogaeth ordeiniedig o blith ymgeiswyr iau, a thros y rhai a fydd yn arwain dy eglwys yn y dyfodol wrth i ni wynebu ymddeoliad cyfran helaeth o'n clerigion
- galwedigaethau i'r gweinidogaethau lleyg trwyddedig - arloeswyr, efengylwyr, caplaniaid bugeiliol, gweithwyr plant, ieuenctid a theuluoedd
- dros gynnydd mewn ymrwymiad i ddisgyblaeth ac aeddfedrwydd Cristnogol
- dros holl bobl Dduw mewn eglwysi ledled ein hesgobaeth wrth i ni geisio gwasanaethu Duw mewn sawl ffordd - yn y gwaith, gartref, yn y gymuned, yn yr eglwys
- Dros ymgeiswyr a fydd yn mynychu Cynadleddau Taleithiol a Rhanbarthol yn ystod y misoedd nesaf a'r rhai a fydd yn cymryd rhan fel dirnadwyr

### GWEDDÏWN DROS Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU HORDEINIO I'R OFFEIRIADAETH YN 2022:

Stephen Hayes (Di-gyflog)
Adrian Johnson (Di-gyflog)
Christopher Lawton (cyflogedig)
Natasha Quinn-Thomas (Cyflogedig)
Patrick Williams (Di-gyflog, Lleol)
Michael Winwood (Di-gyflog, Lleol)

### GWEDDÏWN DROS Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU HORDEINIO I'R DDIACONIAETH YN 2022:

Alyson Goldstein (Offeiriad, Di-gyflog, Lleol)
Grace Lomas (Offeiriad, Cyflogedig)
Dan Morgan (Offeiriad, Cyflogedig)
Marcus Pipe (Offeiriad, Di-gyflog)
Gareth Williams (Diacon, Di-gyflog)

### GWEDDÏWN DROS Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU TRWYDDEDU FEL DARLLENWYR YN 2022:

Nicola Midgley (Darllenydd)
Dawn Wolstenholme (Darllenydd)

### RYDYN NI'N GWEDDÏO DROS Y RHAI SY'N HYFFORDDI AR GYFER GWEINIDOGAETH AR HYN O BRYD, DROS EU TEULUOEDD A THROS SEFYDLIAD PADARN SANT:

Joanne Bowles (Caplan Bugeiliol)
Emma Dale (Offeiriad, Cyflogedig)
Annalise Davies (Offeiriad, Cyflogedig)
Gwen Dixon (Offeiriad, Di-gyflog Lleol)
Kathryn Hall (Offeiriad, Cyflogedig)
Pam Hallam-Wedley (Diacon, Di-gyflog)
Rhiannon Lawton (Gweinidogaeth Drwyddedig Plant, Ieuenctid a Theuluoedd)
Cass Meurig Thomas (Offeiriad, Cyflogedig)
Rebecca Ratcliff (Diacon, Di-gyflog)
Deborah Sawyer (Caplan Bugeiliol)